# Gwirfoddolwyr Digwyddiadau – Gŵyl Fwyd Sain Fagan: Amgueddfa Werin Cymru

**Pwrpas y rôl:** Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i roi help llaw yn ein Gŵyl Fwyd flynyddol yn Sain Ffagan ar 7 a/neu 8 Medi.

Bydd cyfrifoldebau gwirfoddolwyr yn cynnwys cefnogi staff digwyddiadau gyda sefydlu, helpu i gyfeirio ymwelwyr ar draws safle'r ŵyl, stiwardio ardaloedd prysur, helpu gyda gweithgareddau bach, cadw ardaloedd yn lân ac yn daclus

Bydd sesiwn friffio yn Sain Ffagan ar y 31 Awst, 10:30 – 14:30.

Mae'r rôl hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddai'n berffaith i ddysgwyr Cymraeg sy'n dymuno ymarfer

**Lleoliad:** Sain Fagan: Amgueddfa Werin Cymru

**Adran:** Digwyddiadau

**Oedran:** 18+

**Dyddiad Cau :** 11 Awst

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sy'n barod i dorchi llewys.
- sy'n mwynhau helpu eraill i ddysgu ac ymchwilio
- sy' hapus i wirfoddoli yn yr awr iach

**Ystyriaethau:** Efallai y bydd gofyn i chi wirfoddoli dan do yn ein hadeiladau hanesyddol a/neu yn yr awyr agored.Rydym yn hapus i deilwra rolau i anghenion a galluoedd gwirfoddolwyr.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus i Sain Ffagan, ond mae'r amlder yn dymhorol.

**Oriau ac Ymrwymiad:** Byddai'r rôl wirfoddoli hon yn addas i rywun sydd ar gael ar gyfer ddiwrnod llawn (9:30- 17:00). Darperir seibiannau. Cysylltwch â ni os hoffech drafod yr oriau ymhellach.

**Diddordeb?** Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Rydym ni'n cynnig i wirfoddolwyr:

- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis a'n arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni, a
- chyfle i gyfarfod pobl newydd.

